# Yr her:

Mae'r traeth yn le hyfryd i dreulio'ch amser yn ystod yr Haf. Digon o gyfle i greu atgofion a chael hwyl gyda teulu a ffrindiau – adeiladu cestyll tywod, nofio yn y môr, casglu cregyn, bwyta picnic a hufen-iâ!
Ond, yn anffodus yn ddiweddar mae rhai wedi dewis gadael sbwriel ar y traeth a'i adael yn anniben tost! Sut allwch chi helpu?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Ydych chi'n mwynhau treulio amser ar y traeth?
- Sawl traeth ydych chi wedi ymweld?
- Beth yw'r traeth agosaf?
- Sut ydych chi'n teithio i'r traeth?
- Pa weithgareddau ydych yn hoffi gwneud ar y traeth?
- Pryd fyddech yn ymweld â'r traeth?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Yr haf (Bl 3 & 4)

## Rhaid gwneud... / Must do...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.<br>• Darllen yn reolaidd- cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TTBlast ar J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)<br>Bl 3 – 2, 3, 4, 5 a 10<br>Bl 4 – 2, 3, 4,5, 6, 8 a 10<br>• Adio a thynnu<br>Bl 3 i ddefnyddio rhifau 2 ddigid ee 67 + 45 = / 86 – 34 =<br>Bl 4 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 467 + 382 =<br>• Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd<br>• Darllen yr amser fesul 5 munud ac yna pob munud | Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 — 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.<br>Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. |

## Dylech wneud... / Should do...

| Gorsaf Iaith | Cyfri a Chyfrifo | Cwtsh Creadigol |
|---|---|---|
| ⭐ Pan ar wyliau, yn draddodiadol rydym yn danfon cerdyn post at ein teuluoedd i ddweud wrthyn nhw beth rydym ni wedi bod yn ei wneud. Beth am ysgrifennu ac anfon cerdyn post at aelod o'ch teulu yn dweud wrthyn nhw beth rydych chi wedi bod yn ei wneud? | ⭐ Mesurwch belter rhwng dau bwynt ar y traeth. Amserwch eich hun yn symud o un pwynt i'r llall. Heriwch eich hun ac eraill i symud yn gyflymach. | ⭐ Gwrandewch ar gerddoriaeth 'Summer' gan Vivaldi o'r darn 'The Four Seasons'. Pa ddelweddau sy'n dod i'ch meddwl? Tynnwch lun y darlun sydd yn eich dychymyg. Ydych chi yn gallu enwi rhai o'r offerynnau sy'n cael ei chwarae? |
| ⭐⭐ Edrychwch ar ffeil ffeithiau 'Popeth am yr haf' ar wefan yr ysgol. Wrth agor y ddogfen, gwelwch 3 lefel. Dewiswch un i ddarllen ac ateb – heriwch eich hun trwy anelu am lefel uwch. | ⭐⭐ Ewch am dro i'r traeth i gasglu sbwriel. Casglwch cymaint o sbwriel a phosib. Didolwch yr eitemau gan ddefnyddio meini prawf penodol e.e. plastig, papur, caniauCofnodwch sawl eitem sydd a mewnbynnwch y wybodaeth mewn i graff ar Hwb. Sawl eitem sydd gyda chi'r mwyaf/lleiaf ohono ayyb. | ⭐⭐ Mae'r haf yn amser i fwynhau bwyta yn yr awyr agored. Cyfle da i gael BBQ. Beth am greu bwydlen ar gyfer eich BBQ delfrydol. Disgrifiwch y bwyd, tynnwch luniau, gwnewch yn ddeniadol. |
| ⭐⭐⭐ Mae Porth Tywyn yn le hyfryd i'w ymweld. Ewch ati i greu pamffled yn perswadio ymwelwyr i dreulio'i gwyliau yn yr ardal. Bydd angen cynnwys atyniadau'r ardal e.e. goleudu, y traeth, yr harbwr, bwytai amrywiol, RNLI ayyb. Rhaid cynnwys lluniau o'r ardal, gwybodaeth berthnasol, ansoddeiriau i ddisgrifio e.e. bwyd blasus, harbwr hyfryd, môr mawreddog, goleudy gwych. | ⭐⭐⭐ Trefnwch eich gwyliau delfrydol! Mae angen i chi gostio'r daith gan feddwl am yr awyren, gwesty, bwyd a gweithgareddau. Sawl aelod o'r teulu sydd yn mynd? Faint o arian sydd angen cynilo? | ⭐⭐⭐ Edrychwch ar baentiadau blodau haul Van Gogh. Edrychwch yn ofalus ar ei ddefnydd o liw, patrwm a gwead. Ydych chi yn gallu creu darlun tebyg? Edrychwch yn fanwl a thrïwch i gynnwys y manylion yma yn eich gwaith chi. |

## Gallaf wneud... / Can do...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround - darllen y newyddion diweddaraf<br>ACTIV-I-TI — ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations - STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman — 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU — gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl - fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |